

Coleg Gwent

# Pennaeth / Prif Weithredwr

Disgrifiad swydd

## Neges gan Gadeirydd Corfforaeth Coleg Gwent

Annwyl ddarpar-gydweithiwr,

Diolch am eich diddordeb yn rôl Pennaeth a Phrif Weithredwr Coleg Gwent. Cewch ragor o wybodaeth am y coleg a'r broses cyflwyno cais yn y pecyn, gan gynnwys disgrifiad swydd a manyleb y person. Fodd bynnag, hoffwn roi neges bersonol yn ogystal gan roi safbwynt y Bwrdd er mwyn eich helpu chi i benderfynu ai hwn yw'r cyfle cywir i chi.

Mae Coleg Gwent yn goleg mawr a llwyddiannus sy'n darparu ystod eang o gyrsiau academaidd a chyrsiau galwedigaethol i dros 13,000 o bobl y flwyddyn ledled de-ddwyrain Cymru. Yn bennaf, rydym yn gwasanaethu cymunedau a busnesau ym mwrdeistrfi sirol Blaenau Gwent, Caerffili, Torfaen, Sir Fynwy a Chasnewydd. Rydym yn cyflawni hyn drwy gynnig pum campws unigryw sy'n llawn adnoddau.

Mae'r Bwrdd wedi cydweithio'n llwyddiannus â'r Pennaeth presennol ers bron 8 mlynedd ac mae cenhadaeth glir i 'newid bywydau trwy ddysgu' wedi cael ei sefydlu. Bydd y Pennaeth presennol yn ymddeol ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2023-24 felly mae'r Bwrdd bellach yn chwilio am ei olynydd. Fel coleg, rydym wedi llywio ein ffordd yn effeithiol trwy heriau'r pandemig ac rydym yn awr yn adnewyddu ein hymrwymiad fel Bwrdd i ganolbwyntio ar barhau i ddiwallu anghenion ein dysgwyr. Bydd y Pennaeth newydd yn gwella canlyniadau i ddysgywr ymhellach a bydd yn parhau i adeiladu ar gynnwys cyflogwyr yn ein cwricwlwm.

Rydym yn Fwrdd sydd wedi ymrwymo i wneud ein coleg yn rhywle lle mae pawb yn teimlo bod croeso iddo a lle mae ein gwerthoedd craidd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud. Bydd ein Pennaeth newydd yn dangos ymrwymiad clir i arweinyddiaeth sy'n seiliedig ar werthoedd a chynnal ymagwedd gynhwysol o ran arwain y Coleg. Rydym wedi croesawu ymagwedd partneriaeth gymdeithasol at weithio gyda'n haelodau staff a'n hundebau llafur ac ystyrir hyn yn allweddol i'r ffordd o fynd i'r afael â'r heriau y byddwn yn eu hwynebu yn y dyfodol. Mae hon yn rôl uchel ei phroffil ym maes addysg bellach yng Nghymru ac mae'r Bwrdd yn chwilio am ymgeisydd sy'n deall y cyd-destun hwn.

Mae gan y Bwrdd gynlluniau uchelgeisiol i barhau i ddatblygu cyfleusterau'r Coleg drwy sawl prosiect buddsoddi newydd, gan gynnwys ad-leoli campws Casnewydd i safle newydd sbon, pwrpsaol yng nghanol y ddinas ac adeiladu prosiect HiVE sef Canolfan Gweithgynhyrchu Digidol a Pheirianneg bwrpasol o'r radd flaenaf a fydd yn agor ym mis Medi 2025. Rydym yn chwilio am arweinydd sy'n meddu ar hanes o fagu perthnasoedd strategol gyda phartneriaid ac sy'n gallu rheoli prosiectau ariannol cymhleth.

Mae'n adeg gyffrous i ymuno â Coleg Gwent. Mae'r Bwrdd yn chwilio am arweinydd newydd a fydd yn dangos y gwerthoedd a'r ymddygiadau rydym wedi'u gosod ar gyfer ein Coleg a bydd yn gallu ein harwain yn hyderus i'r dyfodol. Os ydych chi'n teimlo'n gyffrous o ran y syniad o ymuno â ni, os ydych chi'n credu y gall pob dysgwr gyflawni beth bynnag yw ei gefndir ac os ydych chi'n angerddol am addysg, yna, byddem wrth ein boddau'n clywed gennych chi.



**Mark Langshaw MBE**
Cadeirydd – Coleg Gwent

**Nodyn i ymgeiswyr:**
Bydd y Pennaeth/Prif Weithredwr presennol, Guy Lacey, yn ymddeol ar ddiwedd y flwyddyn 2023-24. Penodwyd Guy yn 2015 ond mae ef wedi gweithio i'r coleg ers 20 mlynedd. Ar hyn o bryd, mae'n Gadeirydd Colegau Cymru, sef llais addysg bellach yng Nghymru. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnig cyfle i ymgeiswyr siarad â Guy os hoffent wneud hynny cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais. Os hoffech chi siarad â Guy, e-bostiwch amanda.lawrence@coleggwent.ac.uk i drefnu galwad ffôn/galwad Teams.



## Gwybodaeth am y Coleg a'r Rôl

### Trosolwg o Dîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol y Coleg


Mae'r Pennaeth, y Dirprwy Bennaeth a'r Is-benaethiaid yn ffurfio Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol (CLT) y Coleg. Mae'r CLT, ochr yn ochr â'r swyddogion sy'n adrodd iddynt yn uniongyrchol (Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Cynorthwyol) hefyd yn ffurfio'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth (SLT). Cefnogir y CLT gan Swyddog Llywodraethu.

Mae gan Dîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol (CLT) y Coleg gyfrifoldeb cyffredinol am weithio gyda'r Bwrdd i ddatblygu strategaeth ac am weithio gyda'r Bwrdd i roi strategaeth ar waith.

Fel deiliad swydd uwch, penodir i'r rôl hon gan y Bwrdd. Mae deiliaid swydd uwch (SPH) yn uwch-aelodau staff sydd wedi'u penodi gan y Gorfforaeth ac sy'n atebol yn uniongyrchol iddi. Mae rolau SPH yn tueddu cynnyws cyfrifoldeb uniongyrchol am gyflenwi'r cyfeiriad straegol y cytunwyd arno gyda'r Gorfforaeth. Caiff pob penderfyniad sy'n cael ei wneud o ran recriwtio a chydnabyddiaeth ariannol SPH ei wneud gan y Bwrdd a dylai sicrhau cydbwysedd rhwng recriwtio a chadw'r staff gorau, cyflenwi'r canlyniadau gorau i ddysgwyr a sicrhau bod adnoddau'r Coleg yn cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol.



### Siart strwythur:



## Crynodeb o'r rôl

- Darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig a chyfarwyddyd strategol i'r Coleg
- Meithrin diwylliant o ragoriaeth academaidd a gwella parhaus
- Hyrwyddo datblygiad personol a lles pob myfyriwr
- Cryfhau'r perthnasoedd gyda rhieni, busnesau a'r gymuned ehangach
- Sicrhau bod y Coleg yn parhau i dyfu a llwyddo.

## Yr unigolyn rydym yn chwilio amdano

- Hanes amlwg o arweinyddiaeth eithriadol mewn amgylchedd coleg
- Hanes diweddar a pherthnasol yn y sector addysg yng Nghymru yn hanfodol
- Angerdd am greu amgylchedd dysgu cadarnhaol a chynhwysol
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol cryf
- Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

## Yr hyn y gallwch chi ei ddisgwyl yn gyfnewid

Mae'r Coleg yn cynnig llawer o fuddion cyflogaeth gan gynnwys hawl gwyliau hael, cynllun pensiwn a llawer o fuddion a chyfleusterau ar y safle. Byddwch yn ymuno â choleg sy'n uchelgeisiol, yn bwrpasol, yn ymroddedig ac yn gefnogol.

I gyd-fynd â'r rôl hon, cewch gyflog cystadleuol a byddwch chi'n gymwys i gael gofal iechyd a lwfans car.

O fewn mynediad hawdd i goridor yr M4 a'r ardaloedd gwledig cyfagos, mae'r Coleg a'i bum campws yn gwasanaethu ystod fawr ac amrywiol o ddysgwyr, gan amlaf yn recriwtio dros 20,000 o fyfyrwyr y flwyddyn  a 7,000 ohonynt yn fyfyrwyr amser llawn. Mae pob campws o fewn cyrraedd hawdd i rai o'r ardaloedd gwledig harddaf yn ne Cymru ac mae'r ardal yn cynnig llawer o atyniadau i'r rhai sy'n adleoli.

## Dull Penodi

**Dyddiad cau:**
12yp hanner dydd ar ddydd Mercher 12fed Chwefror 2024.

**Dyddiad y cyfweliad:**
Dydd Iau 29ain Chwefror 2024.

**Lleoliad y cyfweliadau:**
Cynhelir y cyfweliadau ar gampws Brynbuga.

Cyflwynwch gais drwy e-bostio amy.foatsmith@coleggwent.ac.uk

**I gyflwyno cais, atodwch y canlynol:**

1. Llythyr cais gan bwysleisio pam eich bod yn dymuno ennill y rôl.
2. CV sy'n cynnwys uchafswm o 2 ochr o bapur A4, ffont 11. Dylai hwn gynnwys eich profiad sy'n eich gwneud chi'n gymwys am y rôl.e.
3. Datganiad Addasrwydd / Datganiad Personol sy'n uchafswm o 2 ochr o bapur A4, ffont 11 a dylai gynnwys y meini prawf a nodir ym Manyleb y Person.
4. Ffurflen gais fer sydd wedi'i hatodi i'r ddogfen hon fel atodiad.



## ATODIAD 1 – FFURFLEN GAIS

Enw:

Cyfeiriad:

Rhif ffôn:

Cyfeiriad e-bost:

Oes gennych chi unrhyw euogfarnau troseddol? Oes ☐ Nac oes ☐

Rhowch fanylion os 'Oes':

Rydym yn gweithredu cynllun gwarantu cyfweliad ar sail ethnigrwydd ac anabledd.

Nodwch a ydych chi'n credu eich bod chi'n gymwys ar gyfer y cynllun hwn ac am ba reswm: Oes ☐ Nac oes ☐

Rhowch fanylion os 'Oes':

Os ydych chi'n cyrraedd y rhestr fer a fyddech chi ar gael am gyfweliad a gynhelir yr wythnos sy'n dechrau 26ain Chwefror 2024

Byddwn ☐ Na fyddwn ☐

**Teitl swydd:**
Pennaeth / Prif Weithredwr

**Yn adrodd i:**
Y Corff Llywodraethu ac yn uniongyrchol i'r Cadeirydd

**Graddfa Gyflog:**
Pecyn deniadol iawn i ddenu'r ymgeisydd cywir - cysylltwch â - amy.foatsmith@coleggwent.ac.uk neu 07779 287929 i gael rhagor o wybodaeth

**Pwrpas y Swydd:**
Darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd i Coleg Gwent er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei nodau a'i amcanion strategol ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau i'r holl ddysgwyr
a rhanddeiliaid.




## Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

**Arweinyddiaeth**
Bydd deilydd y swydd yn:

- Darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig ac effeithiol i'r Coleg, staff a dysgwyr.
- Sicrhau fod proffil y Coleg ledled y rhanbarth yn cael ei hyrwyddo fel amgylchedd dysgu sydd yn flaengar, yn llwyddiannus ac yn uchelgeisiol yn y sector addysg yn ogystal â'r sector masnachol.
- Gyrru diwylliant o barch, uchelgais, llwyddiant a chynwysoldeb.
- Meithrin a chynnal perthnasoedd effeithiol a chynhyrchiol gyda phartneriaid cymunedol, busnesau lleol a swyddogion y llywodraeth.
- Meithrin a chynnal perthynas waith gref ac effeithiol gyda Bwrdd y Llywodraethwyr i ddatblygu a chyflawni strategaeth a strwythur y coleg.

**Addysgu ac Ansawdd**
Bydd deilydd y swydd yn:

- Meithrin a datblygu diwylliant deinamig, arloesol ac entrepreneuraidd ledled y coleg er mwyn manteisio ar gyfleoedd, gwneud y mwyaf o gynhyrchiad incwm a gosod y coleg ar flaen y gad o ran mentrau ar gyfer addysg a hyfforddiant.
- Datblygu diwylliant o ragoriaeth, arloesi, gwelliant parhaus a datblygiad proffesiynol parhaus.
- Sicrhau safonau uchel o ran rhagoriaeth addysgu a chymorth i fyfyrwyr ledled y coleg gan sicrhau lefelau uchel o foddhad myfyrwyr.
- Sicrhau fod diwylliant o Reoli Perfformiad yn rhan annatod o osod targedau clir ac uchelgeisiol, adolygiadau perfformiad rheolaidd a chefnogaeth o ran gwella perfformiad er mwyn sicrhau bod targedau'n cael eu cyrraedd.
- Sicrhau fod y cwricwlwm yn diwallu anghenion darpar gyflogwyr neu ddarparwyr AD i sicrhau fod y dysgwr yn cael y cyfleoedd gorau ar gyfer dilyniant.
- Parhau i adeiladu ar lwyddiant Coleg Gwent drwy hyrwyddo a chefnogi dysgwyr yng nghystadlaethau Sgiliau y DU a'r Byd.

**Partneriaethau**
Bydd deilydd y swydd yn:

- Datblygu cysylltiadau agos ag ysgolion, prifysgolion a cholegau i sicrhau bod darpariaeth cwricwlwm effeithiol yn cael ei datblygu.
- Gweithio gyda phartneriaid strategol yn y rhanbarth gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Colegau Cymru, prifysgolion, cymdeithasau busnes a chynghorau i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd.
- Sefydlu perthnasoedd â chyflogwyr lleol a chenedlaethol i sicrhau y gall y Coleg ymateb i gyfleoedd busnes buddiol ac ehangu lleoliad gwaith neu opsiynau cyflogaeth y dysgwyr.
- Parhau i feithrin perthynas â darparwyr addysg uwch eraill i sicrhau cydweithio pellach.
- Parhau i hyrwyddo a gyrru cydweithredu rhyngwladol pellach er budd dysgwyr a staff.




**Cyllid, Risg a Gwybodaeth Rheoli**
Bydd deilydd y swydd yn:

- Dangos rheolaeth gyllidebol ddarbodus ac effeithiol gan sicrhau y darperir gwybodaeth a data ariannol cadarn i gefnogi'r Coleg gyda chynllunio ariannol addas a rheoli risg.
- Sicrhau bod y cyllidebau refeniw a chyfalaf blynyddol yn cael eu paratoi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Gorfforaeth.
- Sicrhau gweithredu effeithiol o ran cynllunio ariannol a rheolaethau rheoli.
- Diogelu asedau'r Coleg a'i ddiddyledrwydd ariannol.
- Gweithredu fel y Prif Swyddog Cyfrifo.

**Yr Amgylchedd, Iechyd a Diogelwch**
Bydd deilydd y swydd yn:

- Sicrhau ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth ar lefel uchel o ran iechyd a diogelwch, gan hyrwyddo polisïau ac arferion gwaith effeithiol.
- Hyrwyddo diwylliant o gyfrifoldeb unigol dros iechyd a diogelwch.
- Hyrwyddo a gyrru diwylliant o ymwybyddiaeth amgylcheddol ac arferion cynaliadwy yn unol â thargedau Sero Net.
- Hyrwyddo diwylliant o welliant parhaus.

**Atal**
Bydd deilydd y swydd yn:

- Sicrhau y cynhelir dyletswyddau statudol o dan Adran 21 Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 er mwyn atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth.

**Polisïau**
Bydd deilydd y swydd yn:

- Arwain drwy esiampl gan sicrhau bod polisïau'r Coleg yn cael eu parchu a'u dilyn.
- Sicrhau bod gweithdrefnau yn cael eu sefydlu ar gyfer adolygiad effeithiol o bolisïau sy'n effeithio ar y Gorfforaeth, y staff, myfyrwyr a defnyddwyr eraill yn y Coleg.
- Sicrhau bod amserlen ar gyfer dirprwyo ar waith ac y cedwir ati.

**Eiddo**
Bydd deilydd y swydd yn:

- Sicrhau bod ystâd y Coleg yn cael ei rheoli'n effeithiol, gan gynnwys arwain ar ddatblygu a chyfleoedd eraill a allai fod o fudd i'r Coleg.
- Sicrhau fod y Coleg yn dilyn cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer niwtraliaeth carbon.

**Cyfathrebu**
Bydd deilydd y swydd yn:

- Sicrhau diwylliant cyfathrebu cryf drwy ystod o ffyrdd i fyny ac i lawr ar draws y Coleg er mwyn sicrhau lefel uchel o ymgysylltiad gyda gweithwyr ac ymwybyddiaeth dysgwyr.
- Sicrhau fod y Coleg yn cael ei gynrychioli a'i hyrwyddo'n effeithiol mewn fforymau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.




**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**
Bydd deilydd y swydd yn:

- Sicrhau bod agwedd gadarnhaol tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei meithrin ar draws y Coleg.
- Ecwiti o ran cyfle yn cael ei weithredu ar draws y coleg ar gyfer dysgwyr a staff.
- Arwain ymrwymiadau Llywodraeth Cymru gan gynnwys Cymru Wrth-hiliol.

**Diogelu**
Bydd deilydd y swydd yn:

- Sicrhau yr ymgorfforir mesurau cadarn i ddiogelu lles plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.
- Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gael gwiriad DBS Uwch.

**Dyletswyddau Eraill**
Bydd deilydd y swydd yn:

- Ymgymryd â'r dyletswyddau hynny sy'n ofynnol gan y Gorfforaeth o bryd i'w gilydd i sicrhau hyfywedd a llwyddiant parhaus y coleg.

Mae'r Disgrifiad Swydd hwn yn nodi dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd ar yr adeg y lluniwyd ef. Gall dyletswyddau a chyfrifoldebau o'r fath amrywio o bryd i'w gilydd heb newid natur gyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb sy'n gysylltiedig.

## Manyleb y Person

| Meini Prawf | | Hanfodol | Dymunol | Asesir yn ôl |
|---|---|---|---|---|
| **1.** | **Cymwysterau** | | | |
| a) | Gradd neu gymhwyster proffesiynol cyfatebol. | ✓ | | Ffurflen gais |
| b) | Mae gradd Meistr neu gyfwerth, neu gymhwyster proffesiynol perthnasol yn ddymunol. | | ✓ | Ffurflen gais |
| c) | Cymhwyster addysgu. | | ✓ | Ffurflen gais |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2.** | **Gwybodaeth a Phrofiad** | | | |
| a) | Profiad o sector addysg ôl-orfodol Cymru | | ✓ | Ffurflen gais |
| b) | Gwybodaeth ddofn a dealltwriaeth glir o ddatganoli a chyfeiriad polisi addysgol yng Nghymru. | | ✓ | Ffurflen gais /Cyfweliad |
| c) | Dealltwriaeth glir a manwl o sut beth yw sefydliad addysgol ôl-orfodol eithriadol a sut i'w gyflwyno | ✓ | | Ffurflen gais /Cyfweliad |
| d) | Gallu i ysgogi a chyflawni newid trawsnewidiol a diwylliannol | ✓ | | Ffurflen gais /Cyfweliad |
| e) | Yn gallu rheoli cyllidebau datganoledig sylweddol yn effeithiol. | ✓ | | Ffurflen gais /Cyfweliad |
| f) | Hanes llwyddiannus o ran datblygu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol gyda phartneriaid y tu allan i'r sefydliad, yn strategol ac yn weithredol. | ✓ | | Ffurflen gais /Cyfweliad |
| g) | Wedi gweithredu'n llwyddiannus mewn rôl arweinyddiaeth uwch o fewn strwythur partneriaeth gymdeithasol. | ✓ | | Ffurflen gais /Cyfweliad |
| h) | Yn meddu ar brofiad o arwain a rheoli'n llwyddiannus o fewn lleoliad addysgol mawr a chymhleth lle byddwch wedi hyrwyddo cynwysoldeb a chydraddoldeb. | ✓ | | Ffurflen gais /Cyfweliad |

| Meini Prawf | | Hanfodol | Dymunol | Asesir yn ôl |
|---|---|---|---|---|
| **3.** | **Sgiliau a Phriodoleddau** | | | |
| a) | Yn gallu arwain a chymell staff ar bob lefel i weithio'n dda gyda'i gilydd i gyflawni rhagoriaeth perfformiad. | ✓ | | Ffurflen gais /Cyfweliad |
| b) | Yn gallu dangos llwyddiant wrth ddarparu datrysiadau arloesol a chreadigol ar draws sefydliad cymhleth er mwyn gwella perfformiad a chyflawniad timau ac adrannau. | ✓ | | Ffurflen gais /Cyfweliad |
| c) | Cyfathrebwr rhagorol, ar lafar ac yn ysgrifenedig. | ✓ | | Ffurflen gais /Cyfweliad |
| d) | Yn gallu dangos y defnydd o sgiliau cyfathrebu i ymgysylltu ac ysbrydoli eraill a meithrin perthnasoedd cynhyrchiol ac adeiladol. | ✓ | | Ffurflen gais /Cyfweliad |
| e) | Ymgysylltu â, a dylanwadu ar, ddysgwyr, staff, partneriaid a chyflogwyr yn effeithiol. | ✓ | | Ffurflen gais /Cyfweliad |
| f) | Hanes profedig o ddatrys gwrthdaro mewn sefyllfaoedd cymhleth gyda dysgwyr, staff, rhieni a phartïon allanol mewn modd effeithiol. | ✓ | | Ffurflen gais /Cyfweliad |
| g) | Yn meddu ar empathi naturiol â phobl a'r gallu i arwain a datblygu eich tîm ac eraill. | ✓ | | Ffurflen gais /Cyfweliad |
| h) | Yn meddwl yn strategol ac yn gallu darparu polisi sy'n ymwneud â rheoli addysg yn y sector AB gan sicrhau cyfle cyfartal. | ✓ | | Ffurflen gais /Cyfweliad |
| i) | Yn gallu dangos tystiolaeth eich bod yn gallu sicrhau canlyniadau llwyddiannus i derfynau amser heriol yn gyson. | ✓ | | Ffurflen gais /Cyfweliad |
| j) | Profiad o addasu i atebion technolegol newydd a ffyrdd newydd o weithio. | ✓ | | Ffurflen gais /Cyfweliad |
| k) | Y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu'n gyffredinol ar lefel sylfaenol (neu barodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant). | | ✓ | Ffurflen gais /Cyfweliad |

| **4.** | **Gofynion Ychwanegol** | | | |
|---|---|---|---|---|
| a) | Byddwch yn gallu teithio rhwng safleoedd a gweithio'n hyblyg, gan gynnwys ar benwythnosau a gyda'r nos. | ✓ | | Cyfweliad |
| b) | Gweithredu fel llysgennad i'r Coleg | ✓ | | Cyfweliad |